

CERAMIC SERIES

JANE PERRYMAN



Over the years I have bought many pots — some to be used and some to be looked at. They have tended to congregate in the living room crowding the shelves, spilling over on to tables and often ending up on the floor. But last year all was changed, the living room was to be re-decorated and every moveable object was taken out. I made a firm decision only to move things back as they were needed and to be very selective about the pots: only a few have returned. But I also decided to have a 'pot of the week' on the kitchen table where we eat. This has led to a completely new assessment of some of my favourite pots. Some have not survived such prolonged daily scrutiny. In their isolation they have revealed a rather superficial and boring quality I had never before suspected. Others continue to delight and yet others become more and more interesting each time I look at them and I am reluctant to make the weekly change.

One such pot is by Jane Perryman. It is bowl like, gently rising up and out from a slightly flared foot; about half way up there is an inward turn before the final opening out into a wide rim which completes the bowl form; it is just over seven inches high and is eleven inches wide at the top. Like all her present forms it was hand built with a combination of press moulding and coiling (she uses 'T' material, which provides a

strong enough body for the pots to be thinly built yet robust). Once the shape was completed the surface was scraped and smoothed and then coated with several layers of a ball clay slip, lightly stained to give a faint suggestion of duck egg blue: when leatherhard it was burnished with a metal spoon and pebbles. The pot was biscuit fired to 1000°C with some organic material inside, which has burnt away leaving ochre, brown and turquoise coloured islands and textured markings. A superimposed torn paper resist stripe pattern of varying intensity, achieved by the use of a common clay slip has given interest to the upper outside surface of the pot; the subsequent sawdust firing added a smoky blush to the inside of the wide rim and caused the stripes on the outside to vary from dark brown, through umbers and ochres to a faint ghostly grey.

During its week on the kitchen table it was often picked up, felt, round and over and put down again to give a slightly different view. Which ever way it was placed and however high or low my viewpoint, standing or sitting, there always seemed to be something I had not seen before. I continue to find the contrast of the 'natural world' inner surface patterning with the outer more formal suggestion of stripes and the pot's subtle ever changing sophisticated profile both visually stimulating and satisfying. It is now on a shelf in the living room.

Jane Perryman was born in London, the eldest of three sisters. The family, her mother a Quaker and her father a Socialist, moved out when her father worked on building the new town of Stevenage. Her interest in art was stimulated at the local Girls Grammar School and she was encouraged to apply for the Foundation Course at Hornsey College of Art (now part of Middlesex Polytechnic). She stayed on at Hornsey for the three year Dip AD in Ceramics which, with Richard Parkinson as Head of Department, had an industrial base, concentrating on mould making and slip casting — techniques which she admits were useful to learn. She has written in Ceramic Review that she looked longingly at my studio pottery students handbuilding in the next room, but she completed her course, went on to a Teacher Training course in Cardiff and spent several years teaching in secondary schools. She was by then living in Cambridge and wished to start working again with clay. She gave up full time teaching and joined a co-operative group and had the use of a studio. She set to work exploring many techniques including handbuilding and throwing and soon built up a number of useful retail outlets; she describes her work at that time as extremely decorative and covered with elaborate patterns.

A few years later she was awarded a British Council Scholarship to spend a year at the Keramisch Workcentrum in Holland; there she was able to explore her own ideas and gain much from working with potters from all over the world. It was a stimulating and useful experience. It was soon followed by a visit to the U.S.A. to join her future husband Kevin Flanagan, a jazz musician, whom she had met in Cambridge. She set up a studio by the sea in New Hampshire and started slip casting pots, having made moulds from large pebble boulders found on the beach. Within two years they had returned to Cambridge and a studio was established in the shed at the end of the garden with a 5 cu. ft. ceramic fibre propane gas kiln for biscuit firing: the sawdust kiln, outside, is dry built from house bricks, its size and shape easily adaptable to suit the pots. Different grades of sawdust are used, giving different effects.

By this time she had become very involved in the Iyengar Yoga Movement, influenced by one of her sisters who had trained as a yoga teacher. Yoga has become an essential part of her life and she devotes time to its practise every day. Earlier this year she went to the Iyengar Yoga Institute in Pune, India. She has written "The meditative and calming influence of yoga made me want to make simpler forms using slower more direct techniques. The open forms I began to make reflected the 'opening up' of the body and mind attained through yoga practise. 'Any action done with beauty and purity and in complete harmony of body, mind and soul is art. In this way art elevates the artist. As yoga fulfills the essential need of art, it is art.' (B.K.S. Iyengar 'The Art of Yoga')."

A visit to the Hans Coper exhibition at the Sainsbury Centre in Norwich was a revelation — she was deeply moved by the simplicity and majesty of his forms. It was about this time that Elspeth Owen showed her some burnished pots fired in sawdust. She immediately felt a rapport with the technique which did away with the necessity of glazing. She experimented with simple press moulded and coiled forms trying out many different clay bodies, but it was not until she started using 'T' material that she was able to overcome the initial cracking problems. Pots in museum collections, such as burnished African pots and also European Celtic and Bronze Age pots in the British Museum became a focus of interest. Their strong simple forms have been as influential as Coper's on the development of her own three dimensional vocabulary. She is aware of the growing work of Magdalene Odundo and Gabriele Koch.

Handbuilding methods, such as press moulding and coiling are not quick in our damp British climate. She likes to work on a group of eight or nine at a time so that the

drying will take its natural course and not be artificially speeded up: this also allows for an easy development of those subtle variations in emphasis and scale which are so vital a part of the hand builder's art. She has gradually evolved techniques of decoration that seem to give limitless opportunities for adventurous experiment. Organic materials burn away and leave deposits fired into the biscuit surface. Through experience Jane knows the possible and probable range of colours and patterns that will result and to a certain extent could be said to have orchestrated the event, but chance, that ever present friend or foe of a kiln god, has the last word. A particularly pleasing interior surface can be protected from the smoking of the sawdust firing by being covered with silver sand. The added cut and torn paper resist patterns do not always work satisfactorily. As Jane has said "The exciting moment is when I wash all this loose slip and carbon away and can see the effects; the result of smoke movement on the surface of the pot gives a sense of mystery. Sometimes it does not work at all, in which case I can re-oxidise it and start again."

She continues to explore open bowl and dish forms with many variations in rim detail. A comparatively new form for her is a tall flattened jug, with upward reaching lip, curved handle and flared foot. The striped patterns are more prominent than on the bowl forms and relate to some of her earlier decorated pieces. She has also recently experimented with porcelain.

Her time at Hornsey included the famous 'sit in'. She looks back now with a slightly rueful amazement that the students involved, and she was one of them, really thought that they were going to change the world. I, older, doubted they would succeed but supported their efforts. There was excitement, confusion, endless discussion that got nowhere, but that was the point — 'ongoing' was the word used and it conveyed the idea that everything must be continually re-assessed and re-examined in relation to everything else. A sound idea — life and the world we live in are not static — the organic and the inorganic change continually. To quote Karl Marx "all that is solid melts into air."

Jane, now in mid career, has developed techniques of sawdust firing which are uniquely her own. At the same time she has evolved a language of form and colour through which to express her ceramic vision.

*Eileen Lewenstein
Hove, June 1990*



GYFRES GERMIC

JANE PERRYMAN



Rydw i wedi prynu llawer o botiau yn ystod y blynnyddoedd — rhai i'w defnyddio a rhai i edrych arnynt. Y duedd fu eu crynhoi yn yr ystafell fyw nes iddynt orlwytho'r silffoed a gorlifo hyd y byrddau ac yn aml hyd y llawr. Ond y llynedd daeth tro ar fyd, roedd hi'n bryd ail-addurno'r ystafell fyw ac roedd yn rhaid symud popeth allan. Addunedaïs na symudwn ddim yn ei ôl i'r ystafell hyd nes y byddai galw amdano, a phenderfynais fod yn hynod ddetholus yn achos y potiau: dim ond ychydig ohonynt ddaeth yn ôl i'r ystafell. Ond penderfynais hefyd y byddwn yn dewis 'pot yr wythnos' i'w osod ar y bwrdd bwyd yn y gegin. Canlyniad hyn fu pwysa a mesur rhai o fy hoff botiau o'r newydd. Ni lwyddodd rhai ohonynt i oroesi'r fath archwiliad, dyddiol, estynedig. O'u gweld ar eu pennau eu hunain, daeth rhyw ansawdd arwynebol a diflas, nad oeddwn wedi amau ei fodolaeth cyn hynny, i'r amlwg. Mae rhai eraill yn dal i'm boddhau, a rhai yn dod y fwyfwy diddorol bob tro y syllaf arnynt, nes fy mod yn amharod i'w newid pan ddaw eu hwythnos i ben.

Pot o waith Jane Perryman yw un o'r potiau hynny. Math o bowlen ydyw sy'n codi ac yn ymestyn yn osgeiddig o waelod sy'n ymledu ychydig; tua hanner y ffordd i fyny mae'n gwyro i mewn cyn agor allan i'r ymyl llydan sy'n cwblhau ffurf y bowlen. Ychydig dros saith modfedd yw ei uchder ac mae'n un fodfedd ar ddeg ar draws yn y man uchaf. Fel y

gweddill o'r ffurflau a gynhyrchir ganddi ar hyn o bryd, mae wedi ei lunio â llaw drwy gyfuniad o wasg-fowldio a thorchi (mae hi'n defnyddio defnydd 'T' sy'n ddigon cryf i alluogi i'r potiau fod yn gain ac yn gyhyrog ar yr un pryd). Wedi i'r ffurf gael ei gwblhau cafodd yr arwyneb ei sgrafellu a'i lyfnhau, ac yna ei orchuddio â haen ar ôl haen o slip clai wedi ei staenio i roi'r awgrym lleiaf o liw glas gwan fel wy hwyaden; pan oedd wedi caledu cafodd ei fwrneisio â llwy fel tel a cherrig man. Taniwyd y pot am y tro cyntaf ar dymheredd o 1000°C gyda pheth defnydd organig o'i fewn. Llosgyd y defnydd hwn yn llwyr gan adael ynysoedd o liwiau ocr, brown a glaswyrrd yn ogystal â marciau eraill ar y arwyneb. Ychwanegwyd at ddiddordeb y rhan uchaf o ochr allanol y pot gyda phatrwm stribed gwrtwydd o bapur wedi ei rwygo, o ddwysedd amrywiol, wedi ei arosod drwy ddefnyddio clai slip cyffredin; yn ystod y tanio llwch llif ychwanegwyd awgrym o liw mwg i du fewn yr ymyl llydan ac achoswyd i'r stribedi ar y tu allan amrywio o frown tywyll, drwy ocrâu ac wmbrau i liw llwyd anelwig.

Yn ystod ei wythnos ar fwrrdd y gegin fe'i codwyd yn aml a'i fyseddu a'i drin a'i droi, cyn ei osod yn ei ôl fel y gellid cael golwg ychydig yn wahanol arno. Pa ffordd bynnag yn cael ei osod ac o ba uchder bynnag yr edrychwn arno, tra'n sefyll neu'n eistedd, roedd rhywbeth nas gwelswn o'r blaen fel pe bai'n cael ei amlygu. Rwy'n dal i gael y gwrtgyferbyniad rhwng y patrymu 'naturiol' ar y tu fewn a'r awgrym mwy ffurfiol o stribedi ar y tu allan, ac amlinell gynnill soffistigedig, gyfnewidiol, y pot, yn fodhaus ac yn weledol gynhyrfus. Ar hyn o bryd mae'n sefyll ar silff yn yr ystafell fyw.

Ganed Jane Perriman, yr hynaf o dair chwaer, yn Llundain. Symudodd y teulu, ei mam yn Grynwyr a'i thad yn Sosialydd, i Stevenage pan gafodd ei thad waith adeiladu yn y dref newydd. Symblywyd ei diddordeb mewn celfyddyd yn yr ysgol ramadeg leol i ferched, ac fe'i hanogwyd i wneud cais i fynychu'r Cwrs Sylfaen yng Ngholeg Celf Hornsey (sydd erbyn hyn yn rhan o Goleg Politechneg Middlesex). Arhosodd yn Hornsey i ddilyn y cwrs tair blynedd ar gyfer Dip Ad mewn Ceramec a oedd, gyda Richard Parkinson yn Benaeth yr Adran, a sylfaen ddiwydiannol iddo, a chanolbwytiodd ar lunio mowldiau a chastio slip — technegau y mae hi'n cyfaddef iddynt fod yn werth ei dysgu. Ysgrifennodd yn Ceramic Review y byddai hi'n edrych yn hiraethus ar fy myfyrwyr crochenwaith stiwdio yn llunio pethau â llaw yn yr ystafell nesaf, ond cwblhaodd ei chwrs. Yna, symudodd i Gaerdydd i wneud Ymarfer Dysgu a threulio amryw o flynyddoedd yn dysgu mewn ysgolion uwchradd. Erbyn hynny roedd hi'n byw yng Nghaergrawnt ac yn teimlo'r awydd i ddechrau gweithio gyda chlai unwaith eto. Rhoddod y gorau i ddysgu'n llawn amser ac ymunodd â grwp cydweithredol lle'r oedd hi'n gallu defnyddio stiwdio. Dechreuodd weithio drwy arbrofi gydag amrywiol dechnegau gan gynnwys llunio â llaw a llunio ar y droell, a chyn bo hir roedd hi wedi dod o hyd i nifer o fannau defnyddiol i werthu ei chynnrych. Mae hi'n disgrifio ei gwaith bryd hynny fel gwaith hynod o addurnol a oedd wedi ei orchuddio â phatrymau cymhleth.

Ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach derbyniodd un o Ysgoloriaethau'r Cyngor Prydeinig i dreulio blwyddyn yn y Keramisch Workcentrum yn yr Iseldiroedd. Yno, roedd hi'n gallu archwillio ei syniadau ei hun ac elwa llawer drwy weithio gyda chrochenyddion o bob rhan o'r byd. Roedd yn brofiad defnyddiol a llawn ysbrydoliaeth. Fe'i dilynywyd yn fuan gan ymweliad â Thaleithiau Unedig America i ymuno â'i darpar wr Kevin Flanagan, cerddor jas yr oedd wedi ei gyfarfod yng Nghaergrawnt. Sefydlodd stiwdio ger y môr yn New Hampshire a dechrau cynhyrchu potiau drwy gasto slip, ar ôl llunio'r mowldiau allan o gerrig mawr y deuai o hyd iddynt ar y traeth. Ymhen dwy flynedd roedd ynt wedi dychwelyd i Gaergrawnt at darparodd stiwdio mewn sied yng ngwaelod yr ardd sy'n cynnwys odyn nwyr propan o fibr ceramic, pum troedfedd ciwbig, ar gyfer y tanio cychwynnol: mae'r odyn llwch llif y tu allan wedi ei chodi'n sych o friciau adeildu tŷ fel y gellir addasu ei maint a'i ffurf yn rhwydd yn ôl gofynion y potiau. Defnyddir gwahanol fathau o llwch llif i greu effeithiau amrywiol.

Erbyn hyn, dan ddyylanwad un o'i chwioryst a oedd wedi ei hyfforddi yn athrawes yoga, roedd hi wedi dechrau ymddiddori o ddifrif yn y Mudiad Iyengar Yoga. Mae yoga wedi dod yn rhan hanfodol o'i bywyd ac mae hi'n neilltuo amser i ymarfer bob dydd. Ar ddechrau'r flwyddyn hon, aeth i'r Sefydliad Iyengar Yoga yn Pune yn India. Mae hi wedi ysgrifennu, "Cododd Dylanwad myfyriol a lleddfol yoga awydd ynof i gynhyrchu ffurflau sylmach gan ddefnyddio technegau arafach a mwy uniongyrchol. Mae'r ffurflau agored y dechreuais eu gwneud yn adlewyrchu y modd y mae'r corff a'r meddwl yn cael eu 'hagor' o ganlyniad i ymarfer yoga. 'Mae unrhyw weithred a gyflawnir gyda phrydferthwch a phurdeb a chyda cytgod perffaith rhwng y corff, y meddwl a'r enaid, yn gelfyddyd. Yn y modd hwn mae celfyddyd yn dyrchafu'r artist. Gan fod yoga yn cyflawni anghenion hanfodol celfyddyd, celfyddyd ydyw.' (B.K.S. Iyengar 'Celfyddyd Yoga')."

Bu ymweliad ag arddangosfa Hans Coper yng Nghanolfan Sainsbury yn Norwich yn agor iad llygad — effeithiodd symylrwydd ac urddas ei ffurflau yn ddwfn arni. Tu'r amser yma y dangosodd Elspeth Owen rai potiau wedi eu bwrneisio a'u tanio mewn llwch llif iddi. Apeliodd y dechneg a oedd yn diddymu'r angen i wydreddu, yn syth ati. Bu'n arbrofi

gyda ffuriau syml wedi eu gwasg-fowldio a'u torchi ac yn defnyddio amryfal fathau o glai, ond dim ond pan ddechreudd hi ddefnyddio defnydd 'T' y llwyddodd i oresgyn y broblem o gracio a fu'n ei phoeni ar y cychwyn. Daeth potiau yng nghasgliadau amgueddfeydd, megis potiau Africanaidd wedi eu bwrneisio yn ogystal â photiau Celtaidd Ewropeaidd a photiau'r Oes Efydd yn yr Amgueddfa Brydeinig, yn ganolbwyt ei diddordeb. Bu eu ffuriau cryfion syml yn gymaint dylanwad a gwaith Coper ar ddatblygiad ei hieithwedd dri dimensiwn. Mae hi'n ymwybodol o'r diddordeb cynyddol mewn bwrneisio ac mewn tanio llwch llif, ac mae hi'n edmygydd mawr o waith Magdalene Oundo a Gabriele Koch.

Nid yw dulliau llunio â llaw, megis gwasg-fowldio a thorchi, yn rhai cyflym yn nhwydd llaith Prydain. Mae hi'n hoffi gweithio ar grŵp o wyth neu naw ar y pryd, fel y gall y broses sychu ddigwydd yn naturiol heb iddi orfod defnyddio unrhyw ddyfais artiffisial i'w chyflymu: mae hyn hefyd yn caniatâu i'r amrywiadau cynnil mewn pwyslais a graddfa, sy'n rhan mor hanfodol o grefft y lluniwr llaw, gael eu datblygu'n rhwydd. Mae hi wedi graddol ddatblygu technegau addurno sydd fel pe baent yn rhoi cyfle diderfyn i arbrofi'n anturus. Mae defnyddiau organig yn losgi'n llwyr gan adael gwaddodion yn yr arwyneb ar ol y tanio cychwynnol. Mae Jane, drwy brofiad, yn gyfarwydd â'r ystod bosibl a thebygol o liwiau a phatrymau fydd yn deillio, a gellid dweud i ryw raddau mai hi sy'n cyd-drefnu'r hyn sy'n digwydd, ond mai gan siawns, duw'r odyn sy'n elyn neu'n gyfaill holl-bresennol, y mae'r gair olaf. Gellir diogelu arwynebedd mewnol sy'n arbennig o foddaol rhag mwg y tanio llwch llif, drwy ei orchuddio â thywod man. Nid bob amser y bydd y patrymau gwrrhydd paper wedi eu torri a'u rhwyo yn gweithio'n foddaol. Fel y dywedodd Jane, "Yr eiliad gynhyrfus yw honno pan fyddaf yn golchi'r slip rhydd a'r carbon i ffwrdd ac yn gweld yr effeithai; mae effaith y mwg yn symud ar hyd wyneb y pot yn rhoi rhw naws o ddirgelwch iddo. Weithiau nid yw'n gweithio o gwbl, a bryd hynny byddaf yn galli ei ail-ocsideiddio a chychwyn unwaith yn rhagor."

Mae hi'n parhau i arbrofi gyda ffuriau bowleni a dysglau sy'n llawn amrywiaeth ym manylion yr ymylon. Ffurf gymharol newydd iddi yw jwg tal wedi ei wastatâu gyda phig sy'n ymestyn i fyny, dolen grwm a gwaelod llydan. Mae'r patrymau streipiog yn fwy amlwg nag y maent ar y llestri ffurf bowlen ac yn dwyn cysylltiad â pheth o'i gwaith addurnol cynnar.

Yn ystod ei chyfnod yn Hornsey y bu'r 'mediannu' enwog. Mae hi'n edrych yn ôl nawr ar yr amgylchiad gyda syndod chwthig braidd fod y myfyrwyr, a hithau yn eu plith, yn meddwl o ddifrif eu bod yn mynd i newid y byd. Roeddwn i'n hŷn ac yn amheus o'u llwyddiant, ond yn cefnogi eu hymdrehchion. Roedd yno gyffro ac anhhrefn a thrafod diddiwedd nad oedd yn arwain i unman, ond dyna oedd y pwynt — 'ongoing' oedd y gair a ddefnyddid a hynny'n cyfleo'r syniad y dylid ailasesu ac ailystyried popeth yn barhaus mewn perthynas â phopeth arall. Syniad da — nid yw bywyd a'r byd rydyn ni'n byw ynddo'n statig — mae'r organig a'r anorganig yn newid yn gyson. Fel y dywedodd Karl Marx, "Mae popeth sy'n soled yn toddi'n awyr."

Mae Jane sydd erbyn hyn ar ganol ei gyfra, wedi datblygu technegau tanio llwch llif cwbl unigryw. Ar yr un pryd mae hi wedi datblygu ieithwedd ffurf a lliw y gall hi eu defnyddio i fynegi ei gweledigaeth geramig.

*Eileen Lewenstein
Hove, Mehefin 1990*

